# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Awst 2015

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr John Griffith, D R Hughes, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, H OBE.

**WRTH LAW:** Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,
Swyddog Adnoddau Dynol (FTM),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Victor Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL** Neb

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd isod :-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2015
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf, 2015

Roedd y Cynghorydd Ieuan Williams yn dymuno iddo gael ei nodi ei fod wedi ymddiheuro am ei absenoldeb o'r ddau gyfarfod a nodir uchod. Eglurodd ei fod yn datgan ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod :-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 APWYNTIO STAFF**

### Swydd Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu Corfforaethol a Thrawsnewid Mewnol)

Nodwyd bod 5 o ymgeiswyr wedi wedi mynd ymlaen i gam nesaf y broses benodi ar gyfer y swydd uchod.

**Swydd Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau a Thrawsnewid Allanol)**

Nodwyd bod 3 o ymgeiswyr wedi mynd ymlaen i gam nesaf y broses benodi ar gyfer y swydd uchod.

Rhoes y Pennaeth Proffesiwn - Adnoddau Dynol adroddiad llafar manwl ar ganlyniad y broses benodi o ran yr ymgeiswyr fel y nodir uchod.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Bod y 2 ymgeisydd yn cael eu cyfweld ar gyfer swydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu Corfforaethol a Thrawsnewid Mewnol).**

- **Bod y 2 ymgeisydd yn cael eu cyfweld ar gyfer swydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau a Thrawsnewid Allanol).**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**